Hawdd ei ddarllen

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

## Beth wnaethom ni yn 2024 i 2025








**Hydref 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dyma fersiwn hawdd ei ddarllen o: **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2024/2025**.



Efallai y bydd angen help arnoch i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.gwentrpb.wales

**E-bost:** gwentregionalpartnershipboard@torfaen.gov.uk

**Ffôn:** 01495 761691

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi defnyddio **Photosymbols** fel y gallwch ddarllen yr adroddiad yn hawdd. I ddweud beth rydych chi’n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddarllen cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


Amdanom Ni 4

Gweithio gyda phobl 6

Gwybodaeth, cyngor a help 8

Fforwm Gwerth Cymdeithasol 9

Cynllunio ac arian 11

Gweithlu (Gweithwyr) 13

Oedolion 14

Taliadau Uniongyrchol 20

Plant a theuluoedd 22

Iechyd meddwl ac anabledd dysgu 24

Niwroamrywiaeth 27

Gofalwyr 30

Dementia 32

Iechyd, gofal cymdeithasol a thai 36

Defnyddio technoleg 39

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gwent 41


Beth nesaf 42

# Amdanom ni

Ni yw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.



Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb.




Mae'r adroddiad hwn am y gwaith y gwnaethom ni o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025.

## Cadw llygad ar yr hyn rydyn ni yn ei wneud



Rydyn ni’n cadw llygad ar sut rydyn ni’n gwneud bob blwyddyn.



Rydyn ni’n gweithio’n dda gyda’n gilydd.

**Yn 2024 a 2025 rydyn ni wedi bod yn:**



- Gwella gofal ar draws Gwent.



- Gweithio gyda phobl i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gyda'n gilydd.



- Cadw llygad i weld pa wahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud.

# Gweithio gyda phobl



Rydyn ni bob amser yn trio gwella sut rydyn ni’n gweithio gyda phobl.




Mae gennym grŵp o bobl sydd yn byw yng Ngwent. Enw’r grŵp yw **Rhwydwaith Dinasyddion Gwent**. Mae dros 200 o bobl yn y grŵp.



Maen nhw’n gweithio gyda ni ac yn dweud beth sy’n bwysig iddyn nhw.



Mae eu barn yn helpu i wella'r pethau rydyn ni’n eu gwneud. Maen nhw'n helpu i wneud yn siŵr bod gennym y gwasanaethau y mae pobl eu hangen.



Fe wnaethom ni drefnu digwyddiad o'r enw **Gwneud Penderfyniadau Gyda'n Gilydd** a dysgu bod angen i ni:

- Wneud yn siŵr mai gweithio gyda phobl yw'r peth pwysicaf.
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu dweud beth sydd gyda nhw i'w ddweud.
- Helpu pobl i gymryd rhan.
- Siarad a gwrando yn dda.
- Cadw llygad ar sut rydyn ni'n gweithio.



Gallwch wylio fideo am y digwyddiad ar YouTube: [www.youtube.com/watch?v=w-Ot7WMqrK8](https://www.youtube.com/watch?v=w-Ot7WMqrK8)



Trefnodd **Rhwydwaith Dinasyddion (Pobl) Gwent** gyfarfodydd a digwyddiadau i helpu pobl i gymryd rhan.



Bydd mwy o ddigwyddiadau ar-lein fel y gall mwy o bobl gymryd rhan.

## Gwybodaeth, cyngor a help



Rydyn ni am wneud yn siŵr ein bod yn siarad yn glir ac yn gwrando ar bawb.



Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd yn well i wella'r ffordd yr ydyn ni'n siarad a gwrando. Mae gennym grŵp sy'n gweithio ar hyn.



Rydyn ni'n rhannu ein gwaith trwy:

- Ein gwefan
- Cyfryngau cymdeithasol
- Llythyrau newyddion




Rydyn ni'n cadw llygad ar ein gwefan yn aml i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu ei ffeindio a'i defnyddio.



Mae gwefannau eraill sy’n ddefnyddiol ac mae ganddyn nhw wybodaeth am wasanaethau yn ein hardal. Fel Dewis.

# Fforwm Gwerth Cymdeithasol



Rydyn ni eisiau helpu pobl yn y gymuned. Rydyn ni’n gweithio gyda’r **trydydd sector**, elusennau a grwpiau cymunedol.

Mae ein fforwm yn chwilio am ffyrdd newydd i ddefnyddio arian, i helpu gwasanaethau fel:



- Gwasanaethau dydd.



- Gwasanaethau yn y gymuned.



Helpu pobl i adael yr ysbyty yn ddiogel.

- Atal pobl rhag mynd i'r ysbyty pan nad oes angen iddyn nhw fynd.





Mae **Llywodraeth Cymru** wedi rhoi arian i helpu gyda hyn.



Yng Ngwent, cafodd peth o'r arian hyn ei ddefnyddio ar gyfer Cynllun Grantiau Bach.




Fe wnaeth yr arian hwn helpu **72 prosiect yn y gymuned**. Fe wnaeth y prosiectau helpu pobl gyda phethau fel:

- Clybiau pobl ifanc
- Iechyd meddwl a llesiant
- Help i ofalwyr

# Cynllunio ac arian




Fe wnaethom ni Asesu Anghenion y Boblogaeth (Pobl) yn 2022.



Mae'n dangos iechyd a llesiant pobl yng Ngwent.



Mae'n edrych ar y pethau sy'n gweithio'n dda a ble mae angen gwasanaethau.



Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i wneud cynlluniau, fel Cynllun Ardal Gwent.




Mae ein Cynllun Ardal yn dangos beth sy'n bwysig i Went a beth sydd ei angen i wella gwasanaethau cymorth.



Mae'n bwysig bod pobl yn cael y gwasanaethau iawn ar yr amser iawn, ac yn y lle iawn.



Rydyn ni'n cadw llygad i weld bod yr arian yn mynd i'r gwasanaethau iawn. Rydyn ni'n edrych ar sut y gall yr arian gael ei ddefnyddio'n well drwy weithio gyda'n gilydd.

## Gweithlu (gweithwyr)



Mae gennym grŵp sy'n helpu i wneud yn siŵr bod digon o staff iechyd a gofal cymdeithasol.



Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod mwy o leoedd i fyfyrwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol.




Maen nhw hefyd yn hyrwyddo gweithio yn y byd iechyd a gofal cymdeithasol drwy ymgyrch o’r enw Gofalwn Cymru.



Mae Gofalwn Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn. Cafodd ei enwebu am wobr yng Ngwobrau Gyrfa Cymru 2025.



Gallwch wylio fideo am Leoliadau Gwaith Gofal Cymdeithasol yma: [www.youtube.com/watch?v=rbBOIvE55lo](https://www.youtube.com/watch?v=rbBOIvE55lo)

## Oedolion




**Ein prif dargedau yw:**



- helpu pobl hŷn i fyw yn hirach yn eu cartrefi eu hunain.



• Helpu pobl i ddod gartref ar ôl bod yn yr ysbyty.



• Cefnogi eu llesiant.



• Eu helpu i gael gwasanaethau gofal. Er enghraifft, amserau aros am apwyntiad.

**Yn 2024 to 2025 fe wnaethom ni:**



• helpu mwy i ddefnyddio offer a chael help.



• Rhoi mwy o ofalwyr i oedolion sydd angen help ychwanegol.



- Cymryd camau i wneud yn siŵr bod pobl yn cael help yn gynnar.



- Cadw llygad i weld pa mor dda mae mae systemau yn gweithio mewn ysbytai a gweithio i’w gwella.



- Edrych ar y ffyrdd newydd a gorau o weithio.

## Iechyd, anableddau a cholli synhwyrau




**Ein prif dargedau oedd:**




- Helpu pobl anabl i fyw yn annibynnol a chael help yn eu cymuned.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwybodaeth dda.



- Helpu pobl i symud i wasanaethau newydd.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**




- Drefnu sesiynau galw heibio ar gyfer colli clyw fel rhan o brosiect **Hwb Dementia**.



- Gwella gwybodaeth i helpu pobl i wneud penderfyniadau.



**Ein camau nesaf yw:**

- Hyfforddi mwy o weithwyr i ddefnyddio offer i helpu yn y cartref, ac addasiadau, fel rheiliau grisiau, rampiau ac offer codi.
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael help i gael gwybodaeth mewn ffordd sy'n ateb eu hanghenion.
- Cael mwy o staff sydd wedi dysgu sut i helpu pobl sydd wedi colli eu golwg.
- Cadw datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau, fel colli golwg a cholli clyw.

## Llesiant ac atal problemau yn gynnar



Mae gennym brosiect o'r enw **Rhwydweithiau Llesiant Integredig**. Mae wedi gwneud llawer o waith i helpu i wella lles pobl.



Er enghraifft, fe wnaethom ni weithio gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ac edrych sut y mae bod ym myd natur yn gallu helpu llesiant pobl.



Fe wnaethom ni helpu llawer o bobl drwy ein gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.



Mae gwasanaeth gennym ni i helpu pobl i gael y gofal iechyd sydd ei angen arnynt.



Mae hyfforddiant gennym ni ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol – i'w helpu i weithio'n well gyda'i gilydd.



Mae prosiectau gwahanol gennym ni sy'n gweithio i gadw pobl yn ddiogel gartref drwy'r gaeaf, a mynd adref yn ddiogel o'r ysbyty.



Byddwn yn dal ati i weithio ar y pethau hyn er mwyn parhau i wella.

# Taliadau Uniongyrchol




Taliadau Uniongyrchol yw'r arian y gall gwasanaethau cymdeithasol ei roi i chi, yn lle gwasanaeth. Gallwch eu defnyddio i brynu eich gwasanaethau cymorth eich hun.



Gallwch wylio ein fideo am Daliadau Uniongyrchol yma: [www.youtube.com/watch?v=IWsNvrNG_Rc](www.youtube.com/watch?v=IWsNvrNG_Rc)



Targed mawr yw gwella sut rydyn ni'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol.




Mae timau wedi gweithio gyda'i gilydd i helpu i rannu costau ac adnoddau. Mae hyn wedi helpu i wella gwasanaethau.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**




- Greu canllawiau gwybodaeth gyhoeddus.



- Hyfforddi staff.



- Trefnu cyfarfodydd rhwng gwahanol dimau staff.



**Ein camau nesaf yw:**

- Cael mwy o staff i wneud hyfforddiant Taliadau Uniongyrchol.
- Chwilio am fwy o gyfleoedd i dimau weithio gyda'i gilydd.
- Datblygu a thyfu timau Taliadau Uniongyrchol.

# Plant a theuluoedd



Rydyn ni am roi mwy o help i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.



Mae anghenion cymhleth yn golygu bod angen llawer o help arnoch oherwydd anabledd, iechyd neu golled synhwyraidd.




Ein targed yw gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gynnar. A rhoi mwy o help yn agosach at y cartref.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**




Ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc gael help gyda'i hiechyd meddwl drwy:

- **Llesiant SPACE**
- **Platfform Gwent 4YP**
- **Fy Nhîm Cymorth (MYST)**



Fe wnaethom ni rhoi gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc drwy'r **Tîm Ymyrraeth i Deuluoedd (FIT)**.




Rydym wedi dilyn y canllaw ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Ei enw yw **Fframwaith NYTH**.



Fe wnaethom ni greu Bwrdd Pobl Ifanc, fel y gall pobl ifanc rhannu eu barn am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.



**Ein camau nesaf yw:**

- Dal ati i weithio ar Fframwaith NYTH.
- Gwrando ar farn mwy o blant a phobl ifanc.

# Iechyd meddwl ac anabledd dysgu




**Ein prif dargedau yw:**




- Gwneud yn siŵr ei bod yn hawdd defnyddio gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.



- Rhoi mwy o gymorth emosiynol mewn ysgolion a chymunedau.



- Rhoi cymorth a hyfforddiant i staff.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**




- Weithio ar wefan **Melo Cymru** www.melo.cymru. Mae llawer o adnoddau iechyd meddwl a llesiant ar y wefan.



- Rhoi llawer o hyfforddiant ymwybyddiaeth o anableddau dysgu i staff.



- Rhoi hyfforddiant llesiant meddyliol i dros 500 o bobl.



- Cefnogi pobl anabl i ddatblygu cyfeillgarwch drwy brosiect **My Mates**.



- Cefnogi oedolion ag anableddau dysgu i ddefnyddio gwasanaethau dydd drwy **Fy Niwrnod, Fy Mywyd**.



**Ein camau nesaf yw:**

- Dal ati i weithio ar y pethau yr ydyn ni wedi eu gwneud hyd yma.
- Rhoi fwy o hyfforddiant.
- Gwella gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Edrych ar y cynllun newydd i Gymru o'r enw Strategaeth Iechyd Meddwl, a'i ddefnyddio.
- Dal ati i weithio gyda phobl i ddatblygu gwasanaethau a chael barn pobl.

## Niwroamrywiaeth



Mae niwroamrywiaeth yn disgrifio pobl y mae eu hymennydd yn gweithio'n wahanol i eraill. Er enghraifft,

oherwydd cyflyrau fel awtistiaeth ac ADHD, 


**Ein prif dargedau oedd:**



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael diagnosis Awtistiaeth yn gyflymach, a chael cyngor a chymorth ar ôl cael diagnosis.



- Helpu mwy o bobl i ddeall pethau fel awtistiaeth ac ADHD.



- Cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu, gweithio, gwirfoddoli a chael cymorth.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**



- Wella gwasanaethau i bobl niwroamrywiol drwy raglen **NDIP** (**Neurodivergence Improvement Programme**).




• Lleihau’r amserau aros am ddiagnosis.



• Trefnu hyfforddiant o’r enw **Profiad Realiti Awtistiaeth**.



• Dechrau ymchwilio i gyflogaeth â chymorth i bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.



• Mae Blaenau Gwent wedi agor gwasanaeth Sgiliau Byw Annibynnol o’r enw **PODS**. Mae’n helpu pobl ifanc ac oedolion sydd ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu.



**Ein camau nesaf yw:**

- Meddwl am brosiectau a syniadau newydd.

- Codi ymwybyddiaeth.

- Dechrau hwb cymorth cynnar.
- Gwella gwasanaethau ar lein.
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu, gweithio a gwirfoddoli.

# Gofalwyr




**Ein prif dargedau oedd:**



- Cefnogi gofalwyr di-dâl.



- Gwella llesiant gofalwyr.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**



- Weithio gyda gofalwyr ifanc mewn ysgolion, gyda dros 100 o ysgolion a dros 1600 o ofalwyr ifanc.



- Rhoi seibiannau byr i ofalwyr.



- Helpu gofalwyr pan fydd y person y maen nhw'n gofalu amdano, yn gadael yr ysbyty. Mae dros 1700 o ofalwyr yng Ngwent wedi cael help.



- Helpu gofalwyr am 6 wythnos ar ôl yr ysbyty. Mae hyn yn helpu gofalwyr i setlo yn ôl i fywyd cartref.



- Cynnwys Gofalwyr mewn penderfyniadau am wasanaethau.



**Ein camau nesaf yw:**

- Gweithio gyda'n gilydd i helpu i gydnabod gofalwyr di-dâl.
- Edrych ar sut y gall prosiectau a gwasanaethau rhedeg am gyfnod hirach.
- Cadw llygad ar ba mor dda yw'r gwasanaethau a sut y gallwn ni eu gwella.

# Dementia



Mae dementia yn salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae'n golygu ei bod yn anodd cofio, meddwl a gwneud pethau.




**Ein prif dargedau oedd:**



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael asesiad, diagnosis a help.



- Gwneud yn siŵr bod fwy o wybodaeth, cyngor a chymorth



- Helpu mwy o bobl i ddysgu am ddementia.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**



- Sefydlu **Hybiau Dementia** ym mhob ardal yng Ngwent. Maen nhw’n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth.



- Rhoi mwy o apwyntiadau ar gyfer **Gwasanaethau Asesu Cof**.

- Rhoi llawer o gyfleoedd i ddysgu am ddementia.

- Tyfu ein **Rhwydwaith Gwent Sy’n Deall Dementia**. Mae ganddo dros 330 o aelodau.



- Cynnig cyrsiau i Ofalwyr.



- Trefnu gweithgareddau i bobl ifanc sy’n byw gyda dementia.



- Mae dros 1500 o bobl wedi rhannu eu barn am ofal dementia.

**Ein camau nesaf yw:**

- Dal ati i redeg yr **Hybiau Dementia** – mae gennym arian ar gyfer y 12 mis nesaf.
- Dod o hyd i arian ar gyfer swydd hyfforddwr newydd ar gyfer dementia.
- Cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu am ddementia.
- Dal ati i dyfu **Rhwydwaith Gwent Sy'n Deall Dementia**.
- Gwneud yn siŵr bod safonau gofal dementia yn uchel.
- Cynnig mwy o weithgareddau a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia, mewn ysbytai.



# Iechyd, gofal cymdeithasol a thai




**Ein prif dargedau oedd:**



- Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod gan bobl hŷn, a phobl ag anghenion eraill, y tai cywir



- Gwneud yn siŵr bod **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** yn cael eu defnyddio'n dda - dyma arian sydd yn helpu gyda'r gost o addasu eich cartref



- Lleihau digartrefedd.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**




- Ddefnyddio ein **Cynllun Tai Cyflym** i leihau digartrefedd.



- Rhoi dros filiwn o bunnoedd i wasanaethau gofal i helpu i stopio pobl rhag bod yn yr ysbyty pan nad oedd angen bod mewn ysbyty.



- Rhoi cymorth tai i bobl.



- gweithio gyda pobl i wella gwasanaethau, a gofyn i bobl am eu barn.

**Ein camau nesaf yw:**



- Cael mwy o staff i gefnogi anghenion tai.
- Rhoi cymorth iechyd meddwl i staff sy'n cefnogi pobl â materion tai.

- Cadw i fyny â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau tai.

# Defnyddio technoleg



Rydyn ni eisiau defnyddio technoleg a gwasanaethau ar-lein sy'n helpu pobl i fod yn annibynnol a gwella ansawdd bywyd.



Er enghraifft, gwefannau sy'n hawdd eu defnyddio, offer clyw, cadeiriau olwyn, dyfeisiau clyfar.

**Yn 2024 i 2025 fe wnaethom ni:**



- Rhoi dyfeisiau i helpu pobl.



- Cadw llygad i weld pa wahaniaeth yr ydyn ni wedi ei wneud.



-  Gwneud yn siŵr bod pobl sy’n defnyddio technoleg yn gallu parhau i’w defnyddio.



**Ein camau nesaf yw:**

- Dala ti i ddatblygu’r ffordd yr ydyn ni’n defnyddio technoleg ar draws Gwent.
- Sefydlu **Rhwydwaith Technoleg Gynorthwyol Gwent**.

# Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gwent




Fe wnaeth y grŵp hwn rhedeg 6 prosiect cymunedol a chyrraedd bron i 5000 o bobl.

Dyma'r prosiectau:

- **4Minds** – gwella iechyd meddwl dynion.
- **Cymru Gynnes** – gwella cartrefi i'w gwneud yn gynhesach.
- **Cymunedau Ffyniannus** -gwella iechyd a llesiant.
- **WISE KIDS** – Cymorth ar-lein i rieni a gofalwyr.
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** – cefnogi materion iechyd fel iechyd y galon.
- **Sir Fynwy**- rhannu ap i gefnogi barn plant sy'n methu siarad.

# Beth nesaf

Dyma rhai o'r pethau eraill y byddwn ni'n eu gwneud yn y flwyddyn nesaf:



- Gweithio gyda phobl i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gyda'n gilydd.



- Cadw llygad i weld pa wahaniaeth mae ein gwaith yn ei wneud.



- Datblygu ein gwaith ar gymryd rhan mewn materion iechyd yn gynnar.



• Byrhau cyfnodau yn yr ysbyty.



• Canolbwyntio ar blant ag anghenion cymhleth




• Dod o hyd i ffyrdd newydd i helpu pobl sy’n aros am asesiadau.



• Rhoi mwy o gymorth i bobl sydd â dementia.



- Dod o hyd i ffyrdd i gyflogi mwy o staff iechyd a gofal cymdeithasol.



- Gweithio i atal pobl rhag bod yn unig.



- Cefnogi gofalwyr di-dâl.



- Gweithio gyda'n gilydd yn dda i gyflawni ein targedau.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

monmouthshire
sir fynwy

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

tvA
cynghrair gwirfoddol torfaen
torfaen voluntary alliance

GAVO
Gwent Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent